

Ffair Ffeirio Syniadau

Tregaron 16 Chwefror 2019

Nodiadau o'r sesiwn drafod a hwyluswyd gan Selwyn Williams

Gosodwyd trywydd i'r trafod fel a ganlyn:

- Perthynas cymunedau â'i gilydd
- Perthynas cymunedau â Llywodraeth
- Perthynas y Gymraeg â chymunedau

Perthynas cymunedau â'i gilydd

Nodwyd fel cyd-destun y cyfeiriad a gafwyd gan Shan Ashton ynghynt yn y dydd at Senedd Wledig Sweden a oedd wedi tyfu yn llwyfan grymus i lais cymunedau lleol yno.

Croesawyd y diwrnod yn fawr fel cyfle i ddod â mentrau cymunedol Cymraeg at ei gilydd. Roedd cyfleoedd fel hyn yn brin. Nodwyd bod cryn gydwethio eisoes rhwng grwpiau yn Nyffryn Ogwen, Dyffryn Nantlle a Bro Stiniog ond bod angen datblygu'r cysylltiadau ymhellach.

Awgrymwyd creu cofrestr o fentrau a chwmnïau cymunedol oedd â'r Gymraeg yn allweddol i'w gweithrediad. Ymhellach, gallai cofrestr o'r fath fod yn sail i rwydwaith hunangymorth defnyddiol. At hynny, awgrymwyd y gellid rhoi arferion da ar-lein er mwyn hwyluso dysgu o brofiadau blaenorol ynghyd â phecyn adnoddau ymarferol. Nodwyd y byddai cael man canolog a allai gynnig cyngor a gwybodaeth o fantais. Byddai hwyluso rhwydweithio yn swyddogaeth arall ddefnyddiol i ganolbwynt o'r fath.

Cyfeiriwyd at waith y Plunkett Foundation yn y maes yn Lloegr ac awgrymwyd bod angen datblygu rhwydwaith tebyg yng Nghymru.

Codwyd y posibilrwydd o sefydlu banc pwrpasol a allai ariannu mentrau cymunedol, e.e. cynnig dull i fuddsoddi mewn portffolio o dafarnau lleol.

Awgrymwyd bod angen codi mwy o ymwybyddiaeth o botensial yr economi sylfaenol.

Perthynas cymunedau â Llywodraeth

Nodwyd, er gwybodaeth, bod grŵp yn y gogledd wrthi'n paratoi strategaeth economaidd amgen i Wynedd a Môn.

Awgrymwyd y dylid llunio a chyhoeddi maniffesto ar gyfer mudiadau cymunedol Cymraeg eu haith.

Nodwyd nad oedd llywodraeth ganol na llywodraeth leol yn llawn ddeall y maes a bod mentrau rhan amlaf yn llwyddo er gwaethaf dylanwad a gweithrediadau Llywodraeth yn hytrach nag o'i achos.

Nodwyd bod angen i'r maes godi ei broffil, codi ymwybyddiaeth a chodi lefelau ei egni; a bod angen llunio ac amlygu modelau amgen o ymwneud lleol a dulliau o hyrwyddo'r economi yn lleol. Dylid creu sail ddeallusol i'r hyn y mae'r mentrau'n geisio ei gyflawni a'i 'ddarlledu' yn helaeth.

Awgrymwyd bod angen gwneud cryn waith lobio a chodi ymwybyddiaeth ymysg pleidiau gwleidyddol fel man cychwyn.

Nodwyd mai eu hannibyniaeth oedd cryfder pennaf mentrau cymunedol.

Trafodwyd potensial cynghorau tref a chymuned fel peiriannau posib i ysgogi newid ac anogwyd unigolion blaengar i sefyll etholiadau i gynghorau tref a chymuned.

Nodwyd bod gwyddor newid ymddygiad yn llywio llawer o bolisi cyhoeddus ar hyn o bryd ac y dylid amlygu potensial mentrau cymunedol i gyfrannu i newid ymddygiad unigolion ar lefel leol.

Perthynas y Gymraeg â chymunedau

Cafwyd trafodaeth fer ar y Gymraeg a'r gymuned a chafwyd consensws cyffredinol y dylai'r Gymraeg gael ei thrafod fel rhan annatod o gymdogaethau Cymraeg. Cyfrwng yw iaith ac fe ddylid ei thrin fel cyfrwng i greu newid ac i weithredu'n lleol. Mae potensial economaidd a chymdeithasol o weithredu'n gynhwysol trwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd bod angen hyrwyddo ymagwedd gyfannol sy'n ystyried iaith fel rhan annatod o wead y gymdogaeth leol.

Crynhoi negeseuon

Bod angen datblygu strwythur cydweithredol rhwng mentrau o gyffelyb fryd ar draws Cymru, fel nodwyd uchod er mwyn rhannu gwybodaeth a phrofiad a hyrwyddo'r feddylfryd.

Bod angen canfod mwy o gyllid cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r economi sylfaenol.

O ran polisi cyhoeddus, mae angen hyrwyddo mwy ar wario'n lleol ac annog perchnogaeth leol go iawn ar asedau lleol. Mae hyn yn golygu datblygu ymddiriedaeth mewn cymdogaethau lleol gan asiantaethau canolog.

Nodwyd bod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod sail gadarn o ran gwerthoedd i ymdrechion i greu economi amgen gynhwysol, gan ei bod yn cyfuno amcanion strategol o ran y Gymraeg, gweithredu cymunedol, cynaladwyedd a'r economi a bod angen gwneud mwy o waith i amlygu'r gwerthoedd a'r uchelgais gyffredin ar sail hynny.

Yn olaf, ac yn allweddol, nodwyd bod angen i ymdrechion i ddatblygu ymwneud lleol a'r economi sylfaenol fod yn hwyl 😊!

Gareth Ioan
16 Chwefror 2019